**IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO (HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS)**

**NODYN GWEITHDREFNOL AR GYFER PENDERFYNU AR GEISIADAU A YSTYRIR GAN YR IS-BWYLLGOR HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS**

Pwrpas y nodyn hwn yw sicrhau bod yr holl geisiadau a ystyrir gan yr Is-bwyllgor yn cael eu trin mewn ffordd gyfiawn, amserol ac effeithiol. Bydd unrhyw wrthwynebiadau a sylwadau ysgrifenedig a wneir yn dilyn ymgynghoriad priodol yn cael eu cynnwys yn adroddiad pob cais.

Bydd hysbysiad cyhoeddus o amser pob cyfarfod, gan gynnwys cyhoeddi Papurau Agenda ar gyfer cyfarfod perthnasol yr Is-bwyllgor Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu gwneud tua 5.00pm o leiaf 9 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod. Gellir cyhoeddi'r agenda'n gynnar i osgoi ei chyhoeddi ar y penwythnos.

Cyfeirir at y sylwadau sy'n cyrraedd yn rhy hwyr yn adroddiad y pwyllgor (Sylwadau Hwyr / Materion sy'n Codi), ond bydd y sylwadau sy'n dod i law erbyn 10am y diwrnod gwaith cyn cyfarfod yr Is-bwyllgor yn cael eu rhannu gydag Aelodau'r Is-bwyllgor Hawliau Tramwy Cyhoeddus y noson cyn yr Is-bwyllgor.

Gall sylwadau hwyr sy'n cynnwys nifer sylweddol o ddeunydd newydd arwain at ohirio ystyried y cais dan sylw er mwyn sicrhau y gellir ystyried y deunydd yn briodol.

Bydd darpariaethau ar gyfer siarad cyhoeddus yn unol â'r canllaw sydd ynghlwm.

Y cworwm ar gyfer yr Is-bwyllgor fydd 3 Aelod.

Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor yn cael eu penodi gan Aelodau'r Is-bwyllgor yn ei gyfarfod cyntaf yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a bydd y penodiadau'n parhau tan ddiwedd blwyddyn y Cyngor.

**GWEITHDREFN**

Cynhelir y cyfarfod fel a ganlyn, yn amodol ar unrhyw newidiadau a wneir yn ôl disgresiwn y Cadeirydd:

1. Ar ôl derbyn ymddiheuriadau, cymeradwyo cofnodion a derbyn unrhyw ddatganiadau buddiannau, bydd y Cadeirydd yn amlinellu i'r rhai sy'n bresennol ddiben y cyfarfod, y weithdrefn i'w dilyn yn y cyfarfod, cyflwyno'r Is-bwyllgor a gofyn i bawb sy'n bresennol gyflwyno eu hunain.

2. Bydd y swyddog cyfrifol (neu unrhyw gynrychiolydd enwebedig) yn cyflwyno'r adroddiad ac yn mynd i'r afael ag unrhyw Sylwadau Hwyr / Materion sy'n Codi neu sylwadau ysgrifenedig.

3. Gofynnir i'r rheini sy'n gwrthwynebu'r cais cynllunio gyflwyno'u sylwadau. Ni chaniateir i'r rheini sy'n siarad ofyn unrhyw gwestiynau i swyddogion nac i'r Is-

bwyllgor.  Gall Aelodau’r Is-bwyllgor sydd eisiau gofyn am eglurhad wneud hynny ar ddiwedd y cyfnod a ganiateir, ond ni ddylent dorri ar draws na chwestiynu’r siaradwr/siaradwyr fel arall mewn unrhyw fodd.

4. Yna bydd gan unrhyw Gynghorwyr Cyngor Bro Morgannwg nad ydynt ar yr Is-bwyllgor Hawliau Tramwy Cyhoeddus hawl i annerch yr Is-bwyllgor, yn amodol ar gyfyngiad amser o 5 munud fesul Cynghorydd.  Gall Aelodau’r Is-bwyllgor sydd eisiau gofyn am eglurhad wneud hynny ar ddiwedd y cyfnod a ganiateir, ond ni ddylent dorri ar draws na chwestiynu’r siaradwr/siaradwyr fel arall mewn unrhyw fodd.

5. Yna bydd gan unrhyw Gynrychiolwyr Cyngor Tref a Chymuned hawl i annerch yr Is-bwyllgor, yn amodol ar gyfyngiad amser o 3 munud fesul Cynghorydd. Gall Aelodau’r Is-bwyllgor sydd eisiau gofyn am eglurhad ar unrhyw bwynt wneud hynny ar ddiwedd y cyfnod siarad a ganiateir, ond ni ddylent dorri ar draws na chwestiynu’r siaradwr/siaradwyr fel arall mewn unrhyw fodd.

6. Yna gofynnir i’r rheini sy’n cefnogi’r cais gyflwyno eu sylwadau. Ni chaniateir i’r rheini sy’n siarad ofyn unrhyw gwestiynau i swyddogion nac i’r Is-bwyllgor. Gall Aelodau’r Is-bwyllgor sydd eisiau gofyn am eglurhad wneud hynny ar ddiwedd y cyfnod a ganiateir, ond ni ddylent dorri ar draws na chwestiynu’r siaradwr/siaradwyr fel arall mewn unrhyw fodd.

7. Gall y swyddog cyfrifol neu'r cynrychiolydd enwebedig ymateb i’r sylwadau a wnaed.

8. Bydd yr Is-bwyllgor yn ystyried y cais ar y cyd ag unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig a llafar a wnaed.

9. Gall yr Is-bwyllgor, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod, ofyn unrhyw gwestiynau pellach i’r swyddog cyfrifol / cynrychiolydd enwebedig neu ofyn am eglurhad ar unrhyw bwyntiau a godwyd.

10. Os ystyrir ei bod yn briodol, gall y Cadeirydd a'r Is-bwyllgor ymweld â'r safle ar ddyddiad ac amser i'w drefnu yn y cyfarfod.

11. Gall yr Is-bwyllgor adael y cyfarfod os yw'n briodol i drafod y cais ynghyd â Swyddog Cyfreithiol y Cyngor a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn unig.

12. Bydd yr Is-bwyllgor yn ymdrechu i wneud penderfyniad ar lafar, ond os nad yw hynny'n bosibl, bydd yr ymgeisydd ac unrhyw wrthwynebydd yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod.